Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# AMGYLCHEDD: Digwyddiad Lansiad Yr Wyddfa Ddi-Blastig 24 Ebrill 2023

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn lansio Cynllun Busnes 'Yr Wyddfa Ddi-blastig' yng Ngwesty Royal Victoria, Llanberis ar 24 Ebrill 2023 (2:00pm-4:00pm). Bydd cyfle i fusnesau sy'n mynychu ymgysylltu â'r Awdurdod i ddatblygu'r weledigaeth o leihau plastigau untro a mynychu ffair fasnach fach gyda chyflenwyr lleol yn arddangos dewisiadau amgen di-blastig. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3novlRs

# NEWYDDION: Amser wedi'i osod ar gyfer profi Rhybuddion Argyfwng y DU

Bydd prawf y DU gyfan o'r system Rhybuddion Argyfwng newydd yn cael ei gynnal am 3:00pm ddydd Sul 23 Ebrill 2023. Bydd pobl yn derbyn neges ar ffonau symudol 4G a 5G – nid oes angen i'r cyhoedd gymryd unrhyw gamau, bydd y sain a'r dirgryniad yn stopio'n awtomatig ar ôl deg eiliad. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.gov.uk/alerts/about.cy

# NEWYDDION: Arddangos bwyd môr Cymru mewn digwyddiad byd-eang

Bydd Ross Shellfish Ltd., o Gaernarfon, yn un o bedwar o gwmnïau bwyd môr o Ogledd Cymru yn ceisio gwneud argraff yn nigwyddiad byd-eang mwyaf y diwydiant bwyd môr yn Barcelona yr wythnos nesaf – Seafood Expo Global. Mae'r stondin a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei chydlynu gan Glwstwr Bwyd Môr Bwyd a Diod Cymru sy'n annog cydweithio ymysg y diwydiant bwyd môr. I ddarllen mwy, ewch i:

https://www.llyw.cymru/arddangos-bwyd-mor-cymru-mewn-digwyddiad-byd-eang-arbennig

Mae pysgotwyr a pherchnogion cychod yng Nghymru yn gallu gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid o hyd at 80% tuag at gostau offer cymwys (dyfarniad uchaf o £30,000). Bydd y cyfnod ymgeisio yn cau ar 12 Mai 2023 – mae manylion y cynllun ar gael ar:

http://bit.ly/3JnhRwA

# DIGWYDDIAD: Cynhadledd "Mae Gogledd Cymru ar agor i Fusnes" 1 Mehefin 2023

Mae tocynnau a Stondinau Masnach ar gael i'w harchebu yng Nghynhadledd "Mae Gogledd Cymru ar agor i Fusnes" i'w gynnal

yn Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB ar 1 Mehefin 2023 (9:00am-4:30pm). I gofrestru a phrynu tocyn, ewch i:

https://bit.ly/NWMBConference

# DIGWYDDIAD: Wythnos Dechnoleg Cymru 2023 – Sioe Deithiol Gogledd Cymru 26-27 Ebrill 2023

Bydd Wythnos Dechnoleg Cymru 2023, a gynhelir ym mis Hydref 2023, yn arddangos technoleg Cymru a'i ecosystem, ac yn hyrwyddo'r diwydiant ar y llwyfan byd-eang. Bydd cyfle i fusnesau wybod mwy am Wythnos Dechnoleg Cymru 2023, a sut i gymryd rhan, yn Sioe Deithiol Wythnos Technoleg Cymru, sydd yn dod i Ogledd Cymru yr wythnos nesaf yn y lleoliadau canlynol:

- Wrecsam: 26 Ebrill 2023 (6:00pm-8:00pm) ym Mhrifysgol Glyndŵr – cofrestru ar: https://bit.ly/3AaoKNx

- Conwy: 27 Ebrill 2023 (9:30am-11:00am) yng Nghanolfan Fusnes Conwy (rhan o 'Business Brunch' FSB Gogledd Cymru) – cofrestru ar: https://bit.ly/3mGOyhk

- Gaerwen: 27 Ebrill 2023 (12:00pm-2:00pm) yn M_SParc – cofrestru ar: https://bit.ly/3N0EoTv

# DIGWYDDIAD: Creu Strategaeth Fusnes Fuddugol! 28 Ebrill 2023

Bydd y weminar Small Business Britain hwn, i'w gynnal ar 28 Ebrill 2023 (11:00am-12:00pm), yn gyfle i glywed am strategaeth a chynllunio busnes gan Charelle Griffith; mae ei busnes ar-lein yn darparu ymgynghori, mentora a hyfforddiant i hyfforddwyr a darparwyr gwasanaethau ar-lein ledled y byd fel y medrant wella eu marchnata. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/40n9mrU

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru